

Rhwydwaith

**CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU**

**WALES SAFER COMMUNITIES**

Network

# **Deall proffil diogelwch cymunedol yng Nghymru:**

## **Arolwg gweithlu'r Awdurdodau Lleol**

**EBRILL 2021**

# Cyflwyniad

**Daeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (y 'rhwydwaith') i fodolaeth ym mis Ionawr 2021.** Mae'n ceisio dod yn lais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan weithio gyda'r aelodau i gefnogi ac annog gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol a darpariaeth leol.

Fel rhan o waith datblygu blaenoriaethau'r Rhwydwaith a deall proffil ei aelodau, nodwyd bod mwyafrif yr elfennau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol, ac yn benodol gwaith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn rhan o waith yr Awdurdodau Lleol. Nododd yr ymgysylltiad cynnar gyda rhanddeiliaid bod gwahaniaethau o ran rôl arweinwyr diogelwch cymunedol a 'thimau' o fewn llywodraeth leol; felly, cynhaliwyd arolwg i dderbyn dealltwriaeth gliriach o'r gweithlu presennol a'r trefniadau.

Rhagwelwyd y byddai'r dysgu o'r arolwg yn gymorth i gefnogi i ddatblygu a chyflawni cynllun gwaith Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru drwy:

- Ddeall tirlun cyffredinol cyfredol diogelwch cymunedol o fewn yr Awdurdodau Lleol (ALLau)
- Sicrhau golwg Cymru gyfan o sut mae gweithlu diogelwch cymunedol o fewn ALLau yn edrych
- Nodi amrywiadau o ran yr hyn a ddiffinnir fel gweithgaredd diogelwch cymunedol ar draws Cymru
- Cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth Cymru gyfan er mwyn galluogi, grymuso a chodi proffil diogelwch cymunedol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Cefnogi datblygiad cynnar seminarau a rhaglenni er mwyn datblygu'r gweithlu diogelwch cymunedol i barhau eu gwaith da yn yr amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

At hynny, er bod ffynonellau gwybodaeth blaenorol (gweler Trafodaeth, tudalen 9) a oedd yn cyfeirio at heriau o ran adnoddau a chymhlethdodau o fewn tirlun diogelwch cymunedol, mae darlun newydd, drwy ganfod ffeithiau gan y tîm Rhwydwaith, yn gymorth i osod y mandad ar gyfer datblygu Rhwydwaith.

## ***Mae safbwyntiau cyfranogwyr wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad***

"Rwy'n croesawu tynnu sylw at Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru; maent wedi colli sylw dros nifer o flynyddoedd, ac maent yn bartneriaeth statudol"

"Mae Diogelwch Cymunedol yn wasanaeth yr anghofwyd amdano, felly mae'n dda gweld bod mwy o sylw yn cael ei roi i Ddiogelwch Cymunedol yn awr"

# Cyflwyniad

## *Dull*

Lansiwyd yr arolwg dwyieithog drwy gyfarfod Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO) ar ddechrau Mawrth 2021 ac roedd ar agor am ychydig dros dair wythnos. Fe'i anfonwyd i'w gwblhau gan arweinydd diogelwch cymunedol penodedig y mhob Awdurdod Lleol a'i rannu gyda'r Prif Weithredwyr er gwybodaeth. Darparwyd dibenion yr arolwg, camau nesaf a gwybodaeth diogelu data i'r cyfranogwyr. Roedd yr holl ymatebion yn cael eu trin fel rhai di-enw ac nid yw'r sylwebaeth ynghlwm yn nodi pwy yw'r unigolion na'r Awdurdodau Lleol unigol. Roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol y byddai'r canfyddiadau yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, Rhwydwaith Aelodau Cabinet, WACSO, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ac Arweinwyr. Mae copi o gwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn atodiad 1.

## *Cyfyngiadau*

Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar ddarpariaeth diogelwch cymunedol o fewn llywodraeth leol yn unig. Nid oedd yn bwriadu bod yn astudiaeth ymchwil manwl ond i gynorthwyo i dystiolaethu sgysrsiau rhanddeiliaid ac i osod cyfeiriad ar gyfer blaenoriaethau cynnar y Rhwydwaith. Bydd safbwynt ansoddol ehangach, gan gynnwys gan reolwyr uwch ac aelodau etholedig, yn sicr yn cyflwyno mewnwelediad ychwanegol. At hynny, cydnabyddir fod gan yr Heddlu a phartneriaid eraill hefyd rôl allweddol ac yn darparu adnoddau ar gyfer diogelwch cymunedol. Gyda hyn mewn golwg, bydd arolwg gwaelodlin blynyddol yn nodi safbwyntiau, barn a data ar draws yr Heddlu a'r bartneriaeth ehangach ar ystod ehangach o destunau yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn y flwyddyn ariannol hon.

Y meysydd cyfrifoldeb mwyaf cyffredin ar gyfer timau diogelwch cymunedol

Trosedd Casineb - Atal Trosedd - Cydlyniant Cymunedol - ASB - CONTEST



Y meysydd cyfrifoldeb llai cyffredin ar gyfer timau diogelwch cymunedol

Cyfamod y Lluoedd Arfog - Diogelwch Tân - Adsefydlu - Gwarchod y Gymdogaeth

## Canfyddiadau Allweddol

**Derbyniwyd cyfanswm o 15 ymateb ar gyfer 17 Ardal Awdurdod Lleol (77.3%).** Cafwyd dau ymateb ar ran trefniadau diogelwch cymunedol ar y cyd. Er y byddai derbyn ymateb gan bawb yn fanteisiol, roedd gwasgariad cyfartal ar draws ardaloedd yr heddlu a'r ardaloedd daearyddol ymysg yr ymatebion. At hynny, mae dadansoddiad a thrafodaeth ynglŷn â'r canfyddiadau yn cael ei hysbysu gan sgysiau ategol ar draws yr holl Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rhwng Ionawr ac Ebrill 2021.

### Staffio gweithgarwch diogelwch cymunedol

**80% Nododd 80% o'r ymatebwyr fod ganddynt Dîm Diogelwch Cymunedol dynodedig.** Roedd y rhai a nododd y dewis 'arall' wedi egluro mai dim ond un person ydoedd a dim tîm, neu fod rôl ddeuol, neu eu bod yn rhan o dîm arall nad oedd yn cael ei adnabod fel Diogelwch Cymunedol.

**Roedd cyfartaledd o 3.36 staff llawn amser yn gweithio yn y Timau Diogelwch Cymunedol.**

Roedd ymatebion i nifer y staff llawn amser ym mhob tîm yn amrywio; gyda'r uchaf yn naw a'r isaf yn un. Nododd dau nad oedd ganddynt staff llawn amser.

O un ar ddeg o ymatebion, cyfartaledd nifer y staff rhan-amser oedd yn gweithio yn y Timau Diogelwch Cymunedol oedd 1.55.

**Cyfanswm nifer y staff sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol (yn llawn ac yn rhan-amser) o'r 14 ymateb oedd 64** (roedd un ateb yn ansicr).

Cadarnhaodd ychydig o dan 50% o'r ymatebwyr (7) fod staff yn gweithio o fewn Diogelwch Cymunedol yn unig. Nododd saith o'r ymatebion fod gan staff ddyletswyddau y tu hwnt i Ddiogelwch Cymunedol fel rhan o'u rolau, roedd un ymatebydd yn ansicr.

Lle bo gan staff gyfrifoldebau y tu hwnt i ddiogelwch cymunedol, roedd y mwyafrif yn rhan-amser (5 o 7 o'r timau).

“Rwy’n teimlo y dylai’r holl dimau diogelwch cymunedol dderbyn adnoddau priodol gyda phwyslais enfawr ar atal. Ar hyn o bryd ar draws yr awdurdodau, bydd un rheolwr gyda chyfrifoldeb am nifer o gategoriâu proffil uchel h.y. gwrthderfysgaeth, trais difrifol, caethwasiaeth fodern ac ati a dim staff i gynorthwyo. Mae’r staff o fewn y timau yn delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn bennaf ac felly yn swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac nid swyddogion diogelwch cymunedol. Ymladd y tân yr ydym ar hyn o bryd ac nid ydym yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.”

*Safbwynt cyfranogwr*

## Canfyddiadau Allweddol parhad

### Dadansoddwr Data Arbenigol ar gyfer Diogelwch Cymunedol

*Nododd 12 o’r 15 ymateb nad oedd ganddynt ddadansoddwr data arbenigol ar gyfer diogelwch cymunedol. Nododd dau ymatebydd fod ganddynt, a nododd y trydydd fod ganddynt fynediad at ddadansoddwyr partner. O’r rhai heb ddadansoddwr data, **nododd dau draean (8 allan o 12) nad oedd ganddynt ddigon o fynediad at gapasiti dadansoddwr i gwblhau eu hasesiad anghenion strategol a /neu ddatrys problemau lleol.***

### Meysydd cyfrifoldeb o dan Ddiogelwch Cymunedol

Gofynnwyd cwestiwn am yr ystod o gyfrifoldebau diogelwch cymunedol a beth oedd yn cael ei gynnwys fel cyfrifoldebau i’r Tîm Diogelwch Cymunedol o fewn pob ardal Awdurdod Lleol. Atebodd y 15 o ymatebwyr, ond **nid oedd un thema oedd yn cael sylw gan y 15 i gyd.** Y prif gyfrifoldebau oedd – Trosedd Casineb, Atal Trosedd, Cydlyniant Cymunedol, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a CONTEST. Y cyfrifoldebau llai cyffredin oedd Cyfamod y Lluoedd Arfog, Diogelwch Tân, Adsefydlu Troseddwyr a chynlluniau Gwarchod Cymdogaeth (gweler yr ystod lawn o atebion yn atodiad 2).

Dewisodd oddeutu dau draean o’r ymatebwyr VAWDASV neu Gamddefnyddio Sylweddau – gyda thimau eraill yn cyflawni’r gweithgareddau hyn. Mae symud gweithgarwch diogelwch cymunedol i eraill yn cael ei ystyried yn ddiweddarach (tudalen 6).

O ran meysydd ‘eraill’ o gyfrifoldeb, nododd un sylw ‘**nid yw hyn yn syml**’, gan ddangos cymhlethdod y rôl. Roedd yr ymatebion yn cynnwys Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Diogelwch Ffyrdd a Thrais Difrifol a Throseddau Trefnedig.

“[Mae] symudiad tuag at ddiogelu a welir yn CONTEST ar lefel weithredol a VAWDASV ond mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y rhain fel blaenoriaethau o hyd ac mae ganddynt rôl o ran trosolwg strategol- hefyd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan nad yw yn rhan o gydlynu ymateb gweithredol ond yn allweddol o ran Sbardun [Cymunedol]”.

*Safbwynt cyfranogwr*

## Canfyddiadau - Newid gweithgarwch diogelwch cymunedol

### Meysydd o gyfrifoldeb a drosglwyddwyd o gylch gwaith staff Diogelwch Cymunedol

Roeddem wedi cael gwybod yn ystod yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid bod rhai meysydd sydd wedi bod yn draddodiadol o dan ddiogelwch cymunedol, bellach wedi symud i rannau eraill o'r Awdurdodau Lleol. Gofynnwyd pa feysydd sydd wedi symud o ddiogelwch cymunedol ac i ba adran a sut y cânt eu staffio. Roedd yn ymddangos ei fod yn gwestiwn oedd yn anodd ei ateb, gydag ymatebion yn amrywio o 'ddim yn glir', neu waith nad yw'n cael ei wneud o gwbl. Ni fu modd i ni nodi nifer y staff. Dyma rai sylwadau:

- “Nid yw rhai o'r [meysydd] uchod yn cael eu gwneud yn awr. Rhai yn cael eu gwneud gan bartneriaid eraill (ddim yr ALI)”
- “Nid wyf yn ymwybodol pwy sy'n gyfrifol am y rhain yn awr - os o gwbl. Rhai fel Gwarchod Cymdogaeth o dan arweiniad yr Heddlu ac ati”
- “Mae wedi'i wasgaru ar draws sawl adran, tai, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, diogelwch, perfformiad”
- “[Mae gwaith wedi symud i] Wasanaethau Cymdeithasol ac rwy'n ansicr o nifer y staff ond oddeutu 10”
- “Roedd Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn fy nhîm ond mae'r rôl yn cael ei chyflawni gan yr Adran Dai yn awr”

Sawl ymateb yn cyfeirio at waith yn cael ei ddarparu'n rhanbarthol – yn enwedig o ran camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod hyn yn peri problemau: “mae rhai materion o ran gwaith/timau APB a VAWDASV ar wahân gan fod elfen leol y gwaith wedi'i gollu”.

Roedd pryderon o ran diffyg capasiti atal ac alinio, fel y nodir yn y sylw isod:

“Rwy'n teimlo y dylai'r holl agenda atal fod yn rhan o ddiogelwch cymunedol. Mae timau atal yn y gwasanaeth troseddau ieuencid a'r gwasanaeth cyfranogiad ymgysylltu ag ieuencid, oll gydag amcanion a dyheadau tebyg. Rwy'n teimlo bod timau diogelwch cymunedol yn delio â materion yn rhy hwyr yn gyffredinol. Dylai bod timau atal wedi alinio â diogelwch cymunedol ac nid mewn adrannau ar wahân.

Mae nifer o unigolion eraill sy'n cyfrannu at ddiogelwch cymunedol o fewn yr Awdurdod Lleol. Roedd yn anodd nodi yn union pwy ydynt a beth maent yn gyfrifol amdano, ond disgrifiodd sawl ymatebydd wahanol dimau sy'n rhan o waith diogelwch cymunedol ehangach (gweler y cwmwl geiriau isod). Wedi'i grynhoi yn y sylw yma:

**“Mae Diogelwch Cymunedol yn rhan o sawl adran arall, Tai, Cefnogi Pobl, Gwasanaethau Gweladwy, Argyfyngau Sifil Posibl ac ati. Mae gennym gysylltiadau rhagorol ar draws yr awdurdod.”**



## Canfyddiadau – cwestiwn cyllid cynaliadwy

Mae amrywiaeth o faterion o ran cyllido swyddi ar gyfer diogelwch cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid tymor byr, a swyddi'n cael eu cyllido i wneud amrywiaeth o weithgareddau nid diogelwch cymunedol yn unig. Roedd cwestiwn testun rhydd wedi'i gynnwys yn yr arolwg, i adael i ymatebwyr wneud unrhyw sylw am gyllid. Darparodd 11 o gyfranogwyr ymateb; roedd y themâu allweddol yn cynnwys -

### Mynediad at gyllid cynaliadwy, digonol

- Dibynnu ar gyllid grant Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC); heriau o ran mynediad at gyllid PCC (megis, mae'n gorfod bod yn unol â blaenoriaethau'r PCC) a lle y ceir cyllid y PCC, diffyg ymagwedd gynaliadwy hir dymor
- Diffyg cyllid cynaliadwy a chyson ar gyfer swyddi Diogelwch Cymunedol. Lefel uchel o contractau dros dro neu ran amser oherwydd cyllid byr dymor
- Mae swyddi wedi'u hariannu o sawl ffynhonnell gyllid wahanol sy'n ychwanegu at gymhlethdod y trefniadau
- Diffyg ymagwedd gyson i gyllid ar gyfer diogelwch cymunedol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol

### Effaith diffyg cyllid ar gyfrifoldebau statudol

- Diffyg cyllid penodol ar gyfer gweithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol neu fentrau atal
- Diffyg cyllid yn peri problemau o ran sicrhau cydymffurfiaeth gyda Dyletswyddau Statudol. Er enghraifft, diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant arbenigol
- Pryderon o ran cyllid ar gyfer dyletswyddau newydd (Dyletswydd Trais Difrifol / Dyletswydd Amddiffyn)



"Bob blwyddyn mae'n teimlo fel bod rhaid i ni frwydro am y cyllid i gynnal ein staff a'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu i leihau trosedd ac atal pobl ifanc rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol. Mae angen gwneud mwy yn strategol i gefnogi cyllido staff diogelwch cymunedol yng Nghymru."

"Byddai ymrwymiad i gyllid hirdymor yn ein galluogi i gomisiynu gwasanaethau yn iawn a chynnal mwy o waith ymyrraeth gynnar a chynlluniau atal yn hytrach nag mewn ymateb i broblem."



"Bob blwyddyn mae'r [staff] yn poeni am eu contractau'n cael eu hystyngiadau... mae'n anodd iawn ymdopi gyda faint o waith sydd a'r disgwyliadau sydd ar y gwasanaeth."

"Mae diffyg cyllid yn benodol ar gyfer Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wir wedi effeithio ar ein gallu i atal ac ymateb i faterion fel partneriaeth. Mae'r tîm yn fach ac mae'r gwaith yn helaeth fel ein bod yn teimlo nad ydym yn gwneud popeth yr ydym eisiau ei wneud oherwydd nad oes gennym y capasiti. Dim cyllideb benodol ar gyfer y bartneriaeth yn golygu ei bod yn amhosibl bod yn greadigol gan ein bod yn dibynnu ar ewylllys da sy'n anodd yn y cyfnod hwn ac yn cyfyngu'r hyn y gallwn ni ei wneud."

## Trafodaeth a Chasgliad

Roedd arolwg byr y gweithlu yn ceisio derbyn dealltwriaeth gliriach o'r gweithlu presennol gyda chylch gwaith diogelwch cymunedol o fewn Awdurdodau Lleol ac i ddeall pa weithgareddau oedd yn cael eu cynnwys yn y cylch gwaith hwnnw. Gyda hynny, roeddem yn ceisio cadarnhad a oedd y gweithgareddau wedi'u symud neu'n cael eu cyflawni gan dimau gwahanol o fewn Awdurdodau Lleol. Holwyd am gapasiti dadansoddwr yn benodol, yn unol â'r gyfrifoldeb ar gyfer asesiadau strategol a datrys problemau lleol. O ystyried y canolbwynt ar adnoddau ar gyfer diogelwch cymunedol, gofynnwyd hefyd am adborth o ran cyllid ar gyfer diogelwch cymunedol.

Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau yn cyd-fynd â'r ymgysylltiad cynnar gyda rhanddeiliaid rhwng datblygu tîm y Rhwydwaith a chysylltiadau ar draws Cymru. Roedd y canfyddiadau hefyd yn cyd-fynd â'r adolygiadau blaenorol (fel arolwg Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer Cymunedau Mwy Diogel, Llywodraeth Cymru, 2017) ac ymchwil academiaidd Cymru sydd wedi ceisio deall rôl a chyfrifoldebau diogelwch cymunedol. Yn sicr, mae'r canfyddiadau allweddol o bron i bymtheg mlynedd yn ôl yn parhau i fod yn berthnasol\*, sef:

- yr 'anghysondebau sylweddol' o ran rolau'r swyddogion arweiniol sy'n gweithio mewn partneriaethau trefniadol amrywiol
- 'proffil anghytwys' gwaith diogelwch cymunedol a rôl y prif swyddog, lle bo rhywfaint o waith mewn timau gydag adnoddau eithaf da, ac eraill â chefnogaeth staff a chyllidebau cyfyngedig
- her o gydbwysu cynllunio strategol (megis, ymateb i ddyletswyddau sy'n dod i'r amlwg a datblygu gwaith atal) ac ymateb i ofynion gweithredol amrywiol (ar gyfer nifer, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yw hyn ar hyn o bryd)

\*Adam Edwards a Gordon Hughes, 2007, Rôl y Swyddog Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, Prifysgol Caerdydd

## Trafodaeth a Chasgliad parhad

Er gwaethaf yr heriau o ran rolau craidd ac adnoddau, mae gwahaniaethau modern sy'n adlewyrchu'r tirlun sy'n newid. Mae hyn yn berthnasol mewn meysydd o ganolbwynt lleol ar gyfer arweinwyr diogelwch cymunedol ac wedi'i ddylanwadu gan ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau (llai o gyfranogiad gyda chamddefnyddio sylweddau a VAWDASV) ond hefyd y cynnydd mewn gofynion cyfreithiol (CONTEST/Prevent, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) a blaenoriaethau cenedlaethol (trosedd casineb, cydlyniant cymunedol). At hynny, mae cymhlethdod a natur adweithiol y rôl yn cael ei gyfyngu ymhellach gan gyllid, sy'n cyfyngu'r gallu i ganolbwyntio mwy ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae'r pwysau ar ddiogelwch cymunedol wedi cynyddu'r canolbwynt ar gyfrifoldebau statudol, a oedd i'w weld mewn ymatebion i gwestiwn ategol yr arolwg o ran ceisiadau testun seminar. Mae nifer o weithwyr proffesiynol profiadol yn gweithio o fewn diogelwch cymunedol, gan gynnwys nifer ar gontractau rhan-amser neu dros dro. Felly, bydd her ar gyfer y tîm Rhwydwaith i ddatblygu rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer grŵp eithaf bychan o weithwyr proffesiynol gyda gofynion a chanolbwynt gwahanol.

At hynny, mae diffyg capasiti dadansoddwr data yn y flwyddyn pan fydd Asesiadau Strategol angen eu cyflawni yn bryder penodol. Dylai'r Asesiadau Strategol nodi'r materion cyfredol a darparu cyfeiriad ar gyfer atal ac ymyrraeth ar draws Diogelwch Cymunedol ar gyfer nawr a dros y blynyddoedd sydd i ddod. Roedd diddordeb cryf gan ymatebwyr mewn seminar ar ddadansoddi data, a allai gynorthwyo gyda datrys problemau lleol. Ond, awgrymir y dylai arweinwyr diogelwch cymunedol ddarparu rôl gynorthwyol yn hytrach na rôl arweiniol wrth gynhyrchu Asesiadau Strategol. Bydd diffyg adnodd dadansoddwr data yn effeithio ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr Asesiadau Strategol ac o ganlyniad, y cynlluniau cyflawni cysylltiol.

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn awr yn darparu cefnogaeth ar gyfer Rhwydwaith Arloesi a Gwella Data a Dadansoddi Cymru (WDAIIN). Gobeithir y bydd WDAIIN yn cefnogi datblygiad achosion busnes ar gyfer buddsoddiad amlasiantaeth mewn dadansoddiad partneriaeth, ynghyd â chefnogi Asesiadau Strategol. Mae WDAIIN wedi nodi dyheadau i hyrwyddo comisiynu a chynhyrchu cynnyrch gwybodaeth sy'n cael eu prif ffrydio ac yn brosesau parhaus. Ynghyd â'u halinio'n briodol gyda chynlluniau ac asesiadau eraill ALI (er enghraifft, asesiadau lles).

## Trafodaeth a Chasgliad parhad

Mae'n amlwg o'r wybodaeth a gasglwyd bod rôl Diogelwch Cymunedol yn cael ei gweld yn wahanol ar draws Awdurdodau Lleol, a bod Diogelu yn torri ar draws sawl maes o fewn ALL, yn debyg i Ddiogelu Pobl. Ymddengys bod rhywfaint o rwystredigaeth o ran diffyg cydlynu a chyllid ar gyfer Diogelwch Cymunedol. Gyda'r posibilrwydd nad oes gan yr holl ALL y gallu i fodloni'r holl ofynion disgwylidig neu unrhyw ddyletswyddau sydd ar ddod, a allai roi Timau Diogelwch Cymunedol bach iawn dan bwysau ychwanegol. Efallai y gallai partneriaid eraill ddarparu cefnogaeth bellach a helpu i adeiladu'r gallu.

Mae cyfleoedd i Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru gynorthwyo partneriaid i ddeall a gwella lle diogelwch cymunedol o fewn y rhaglen o bartneriaethau strategol. Bydd hyn yn gymorth i godi proffil diogelwch cymunedol a hyrwyddo integreiddio ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol a phartneriaethau. Ond, er bod diogelwch cymunedol yn edefyn, fel diogelu, sy'n cydblethu drwy ddarpariaeth weithredol, mae angen dealltwriaeth ac ymrwymiad strategol craidd i hysbysu a gwella ymarfer a dangos cydymffurfiaeth gyfreithiol.

### Argymhellion

1. Bod yr adroddiad yn cael ei gydnabod a'i dderbyn gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
2. Bod y Bwrdd yn cefnogi gwaith Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i gynorthwyo i godi proffil Diogelwch Cymunedol ar draws Cymru – yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
3. Bydd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gyda WDAIIN (gan gynnwys aelodau allweddol, megis Uned Atal Trais, Data Cymru a CLILC) yn edrych am gyfleoedd i gefnogi datblygiad yr Asesiadau Strategol ar draws Cymru.
4. Aelodau Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i ystyried a yw'r adnoddau y mae eu sefydliadau yn eu darparu ar gyfer gweithgarwch diogelwch cymunedol yn ddigonol i ddiwallu'r galw lleol a'r gofynion cyfreithiol, ynghyd â darparu cyfle i staff ddatblygu'n broffesiynol a datblygu eu gwasanaethau (yn enwedig o ran atal).
5. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i gynnal arolwg gwaelodlin ehangach (i'w ailadrodd yn flynyddol) i dderbyn safbwyntiau a data gan yr holl asiantaethau sy'n rhan o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar ystod ehangach o destunau, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau, ac adnoddau i gynnal gweithgareddau diogelwch cymunedol yn lleol.

## Atodiad 1

### Rhestr o gwestiynau'r arolwg

Oes gennych chi Dîm Diogelwch Cymunedol dynodedig?

Sawl aelod o staff sy'n gweithio yn y Tîm Diogelwch Cymunedol yn RHAN-amser?

Sawl aelod o staff sy'n gweithio yn y Tîm Diogelwch Cymunedol yn LLAWN-amser?

Oes gan unrhyw un o'r staff Tîm Diogelwch Cymunedol ddyletswyddau tu hwnt i Ddiogelwch Cymunedol?

Os oes, sawl un sydd â dyletswyddau tu hwnt i Ddiogelwch Cymunedol yn RHAN-amser?

Os oes, sawl un sydd â dyletswyddau tu hwnt i Ddiogelwch Cymunedol yn LLAWN-amser?

Oes gennych chi Ddadansoddwr Data arbenigol ar gyfer Diogelwch Cymunedol? Os oes, Llawn-amser, rhan amser

Os nad, ydych chi'n credu bod gennych ddigon o fynediad at ddadansoddwr data i sicrhau y gallwch gwblhau eich asesiad anghenion strategol, a/neu ddatrys problemau lleol?

Rydym wedi cael gwybod bod rhai meysydd sydd wedi bod yn draddodiadol o dan ddiogelwch cymunedol, bellach wedi symud i rannau eraill o'r Awdurdodau Lleol. Pa rai o'r meysydd canlynol sydd yn dod o dan gylch gwaith Diogelwch Cymunedol yn eich ALI ar hyn o bryd?

Oes rhai nad ydynt bellach o dan Ddiogelwch Cymunedol yn eich ALI?

Oddeutu faint o staff a pha gyfarwyddiaeth/ adain yn yr ALI maent yn rhan ohono yn awr?

A oes unrhyw weithwyr eraill sy'n cyfrannu tuag at ddiogelwch cymunedol sydd bellach mewn timoedd eraill. Os oes, faint a beth maent yn ei wneud?

Rydym wedi cael gwybod bod amrywiaeth o faterion o ran cyllido swyddi ar gyfer diogelwch cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid tymor byr, a swyddi'n cael eu cyllido i wneud amrywiaeth o weithgareddau nid diogelwch cymunedol yn unig. Os hoffech roi unrhyw fanylion, gwnewch hynny yn y bocs isod. Bydd eich sylwadau yn cael eu cynnwys yn ddiennw yn yr adroddiad.

Bydd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn datblygu rhaglen Dysgu a Datblygu manwl yn ddiweddarach yn 2021/22. Byddwn yn ymgynghori ar hynny yn nes at yr amser. Fodd bynnag, rydym yn trefnu rhai sesiynau dysgu a datblygu cyn datblygu'r rhaglen lawn. Dynodwch isod os oes gennych chi a/neu aelodau eraill o staff, ddiddordeb yn unrhyw un o'r testunau hyn.

Os oes unrhyw feysydd eraill o ddysgu a datblygu yr hoffech weld yn cael eu cynnwys yn y rhaglen ddechreuol, rhestrwch y rhain isod.

Rydym wedi gofyn llawer o gwestiynau i chi. Defnyddiwch y bocs isod i roi unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.


## Atodiad 2

Tabl: Ymatebion i feysydd cyfrifoldeb thematig

Thema	O Fewn y Tîm	Y Tu Allan i'r Tîm	Heb ei Nodi
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB)	12	3	0
VAWDASV	9	4	2
Camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys paraffernalia cyffuriau)	10	4	1
Cymorth addysg diogelwch tân	2	4	9
Cyfamod y lluoedd arfog (yn arbennig o ran cynhwysiant)	1	5	9
Adsefydlu ac integreiddio gadawyr carchar	3	3	9
Gwarchod Cymdogaeth (neu debyg)	4	5	6
Teledu Cylch Caeedig (CCTV)	5	5	5
Atal Troseddu	13	2	0
Rhwystro a Gwrthderfysgaeth	12	1	2
Cymorth atal tân	2	3	10
Caethwasiaeth fodern (gan gynnwys llinellau sirol a meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau) a Chamfanteisio (gan gynnwys yn rhywiol)	11	1	3
Cymorth Dioddefwyr/pobl ddiamddiffyn	9	2	4
Gwarchod ffermydd / gwarchod gwledig	5	4	6
Addysg ieuenctid (e.e. cydlynu 'Criw Hanfodol' neu debyg)	5	5	5
Troseddau Casineb	14	0	1
Cydlyniant cymunedol	13	1	1
Ymyrraeth gynnar (ee arfer wedi'i hysbysu gan drawma)	5	3	7
Arall	3	2	N/A

**Hoffai Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ddiolch i'r holl gyfranogwyr am eu cyfraniad drwy lenwi'r arolwg hwn.**

"[Rydym] yn edrych ymlaen at wneud mwy o waith gyda'r Rhwydwaith."  
Adborth cyfranogwr



Rhwydwaith

**CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU**

---

**WALES SAFER COMMUNITIES**

Network

I gael manylion dosbarthu - gweler tudalen 3

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch - [CymunedauMwyDiogel@wlga.gov.uk](mailto:CymunedauMwyDiogel@wlga.gov.uk)